



At Brif Swyddogion Cynllunio:

Ein Cyf/Our ref:
Dyddiad/Date: 17 Tachwedd 2016

Annwyl Gyfeillion,

Cyhoeddi Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 9 (Tachwedd 2016)

Cyhoeddwyd Argraffiad 9 o *Bolisi Cynllunio Cymru* (PPW) heddiw. Mae'r argraffiad hwn o Bolisi Cynllunio Cymru yn cynnwys penodau sydd wedi'u diwygio'n llwyr sef 'Yr Amgylchedd Hanesyddol' a 'Datblygiadau Manwerthu a Masnachol', ynghyd â newidiadau sy'n ganlyniad i ddarpariaethau yn Neddf Cynllunio (Cymru) 2015 a'r ffaith bod Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi dod i rym.

Mae'r diwygiadau a wnaed i adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gam pellach yn y broses o adolygu a nodir ym *Mhrosbectws y Polisi Cynllunio*, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2015. Y bwriad yw sicrhau bod yr hyn a gaiff ei gynnwys yn argraffiad nesaf Polisi Cynllunio Cymru yn gydnaws â'r nodau llesiant yn y Ddeddf. Ar hyn o bryd, disgwylir y bydd yr argraffiad hwnnw, a fydd wedi'i ddiwygio, yn cael ei gyhoeddi yn 2018, a hynny wedi inni gynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn 2017.

Er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb ac er mwyn sicrhau bod canllawiau gweithdrefnol ar gyfer rheoli datblygu ar gael yn hwylus, rydym hefyd wedi cyhoeddi Llawlyfr Rheoli Datblygu ar-lein. Mae'r Llawlyfr yn dwyn ynghyd mewn un lle ganllawiau sy'n bodoli eisoes gan ddisgrifio'n fras bob cam o'r weithdrefn ar gyfer rheoli datblygu. Mae hefyd yn cyfeirio at atodiadau manylach lle bo'n briodol ac yn cynnwys dolenni at ddeddfwriaeth neu ganllawiau ychwanegol er mwyn rhoi cymorth pellach. Bwriedir i'r Llawlyfr hwn fod yn adnodd 'byw' ar y we a bydd yn cael ei ddiweddarau yn ôl y gofyn dros amser.

Mae'r argraffiad newydd o Bolisi Cynllunio Cymru a'r Llawlyfr Rheoli Datblygu ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Dilynwch y dolenni isod:

Polisi Cynllunio Cymru www.gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy

Llawlyfr Rheoli Datblygu

www.gov.wales/topics/planning/policy/development-management-manual/?lang=cy

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



Dyma'r prif newidiadau i Bolisi Cynllunio Cymru:

Mae **Pennod 1** wedi'i diweddarau i adlewyrchu'r 'Fframwaith Perfformiad Cynllunio' a'r disgwyliadau polisi o ran apelau dilysu.

Mae **Pennod 2** ar broses y Cynllun Datblygu Lleol wedi'i diweddarau mewn ymateb i newidiadau i ddeddfwriaeth, gan gynnwys darpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Hefyd, mae rhai o'r elfennau gweithdrefnol yn y Llawlyfr Rheoli Datblygu (Rhifyn 2, 2015) wedi'u dileu.

Mae cynnwys gweithdrefnol **Pennod 3**, Datblygu Rheoli, wedi'i symleiddio o ganlyniad i gyhoeddi'r Llawlyfr Rheoli Datblygu. Mae'r bennod ddiwygiedig bellach yn cynnwys cyfeiriad at 'Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol' wedi i'r Rheoliadau perthnasol sy'n gysylltiedig â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 ddod i rym.


Mae **Pennod 4** wedi'i diweddarau i gynnwys diben statudol y system gynllunio a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Hefyd, gwnaed newidiadau mewn ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mewn perthynas â Datganiadau Dylunio a Mynediad sy'n gysylltiedig â Deddf Cynllunio (Cymru).

Mae **Pennod 6** yn sôn am yr amgylchedd hanesyddol ac mae wedi'i diweddarau'n llwyr mewn cydweithrediad â Cadw ar ôl yr ymgynghoriad a gynhaliwyd yn gynharach eleni, ac ar ôl i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 gael Cydsyniad Brenhinol..

Mae Pennod 10 wedi'i newid er mwyn diweddarau polisi cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygiadau manwerthu a masnachol. Mae'n ofynnol o hyd ystyried defnyddiau cyntaf a defnyddiau ategol canolfannau manwerthu a masnachol, ac mae gofyn hefyd asesu'r angen am ddarpariaeth fanwerthu, cynnal profion dilyniannol ac asesiadau effaith pan fo hynny'n briodol. Ynghlwm wrth y Bennod a ddiweddarwyd, ceir Nodyn Cyngor Technegol Rhif 4, *Datblygiadau Manwerthu a Masnachol*.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y newidiadau yn y ddogfen *Crynodeb o'r Newidiadau* sydd wedi'i chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru gydag Argraffiad 9 o Bolisi Cynllunio Cymru.

Yn gywir,



Neil Hemington
Chief Planner | Prif Gynllunydd
Planning Directorate | Cyfarwyddiaeth Cynllunio
Welsh Government | Llywodraeth Cymru